# Hysbysiad Preifatrwydd: Ymgynghoriad ar gais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear (NIA) am Gyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer yr 'Adweithydd Modiwlaidd Bach (SMR) Rolls-Royce' a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut byddwn ni'n defnyddio eich data personol pan fyddwch chi'n cymryd rhan yn yr Ymgynghoriad ar gais Cymdeithas y Diwydiant Niwclear am Gyfiawnhad Rheoleiddiol ar gyfer y 'Rolls-Royce SMR' a ddyluniwyd gan Rolls-Royce SMR Limited, lle rydyn ni'n gofyn am eich barn, eich safbwyntiau a'ch profiadau ar ddeddfwriaeth neu bolisi arfaethedig.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau am gynnwys yr hysbysiad preifatrwydd hwn, cysylltwch â chydlynydd ymgynghori Defra drwy anfon neges e-bost i consultation.coordinator@defra.gov.uk.

Rydym yn defnyddio Citizen Space i gynnal ein hymgynghoriadau a'n hymarferion galwad am dystiolaeth.

## Pwy sy'n casglu eich data personol

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yw'r rheolydd ar gyfer y data personol rydym yn ei gasglu:

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig
Seacole Building
2 Marsham Street
Llundain
SW1P 4DF

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth am sut mae Defra yn defnyddio eich data personol a'ch hawliau cysylltiedig, gallwch gysylltu â rheolwr diogelu data Defra drwy anfon neges i data.protection@defra.gov.uk neu i'r cyfeiriad uchod.

Swyddog diogelu data Defra sy'n gyfrifol am sicrhau bod Defra yn cydymffurfio â deddfwriaeth. Gallwch gysylltu â'r swyddog drwy anfon neges i DefraGroupDataProtectionOfficer@defra.gov.uk neu i'r cyfeiriad uchod.

## Pa ddata personol rydym yn ei gasglu a'r ffordd mae'n cael ei ddefnyddio

Rydym yn casglu'r wybodaeth ganlynol amdanoch:

- Cyfeiriad e-bost
- Barn, safbwyntiau a phrofiadau
- P'un ai ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad neu grŵp
- Eich lefel gwybodaeth am y broses cyfiawnhau niwclear

Byddwn yn ystyried eich ymateb, cyn belled ag y bo modd, gyda'r holl ymatebion eraill i'r ymarfer ymgynghori.

Os ydych chi'n darparu eich manylion cyswllt ac yn rhoi caniatâd i ni, efallai y byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i gydnabod eich ymateb, i roi gwybod i chi bod y ddogfen penderfyniad ddrafft wedi cael ei chyhoeddi, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr ymgynghoriad neu i'ch gwahodd i roi eich barn, eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn ymateb i ymarfer galwad am dystiolaeth.

Gallwch dynnu eich caniatâd i dderbyn y negeseuon e-bost hyn yn ôl ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni yma: RRSMRAPPLICATION@defra.gov.uk, gan roi'r canlynol yn y llinell pwnc: YMGYNGHORIAD: CAIS ROLLS-ROYCE SMR

Bydd eich data personol yn ddienw fel rhan o'r broses ddadansoddi. Ar ôl i'ch data personol gael ei wneud yn ddienw, ni ellir ei gysylltu â chi mwyach ac nid yw'n ddata personol mwyach. Gellir defnyddio'r data dienw mewn system deallusrwydd artiffisial i gefnogi'r dadansoddiad.

Efallai y byddwn yn cyhoeddi'r dadansoddiad ar ddiwedd yr ymarfer ymgynghori gyda'r holl wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich ymateb, sut bynnag y daw i law, er mwyn i eraill ei gweld.

Os ydych chi am i'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi gael ei thrin yn gyfrinachol, esboniwch pam rydych chi'n credu bod yr wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cadw cyfrinachedd ym mhob amgylchiad. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG yn rhwymol.

## Sut cafwyd eich data personol, os gan drydydd parti

O bryd i'w gilydd, efallai y byddwn yn cysylltu â chi'n uniongyrchol i'ch gwahodd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad neu ymarfer galwad am dystiolaeth. Pan fydd hyn yn digwydd, byddwn yn dweud wrthych o ble y cawsom eich gwybodaeth gyswllt.

## Seiliau cyfreithlon dros brosesu eich data personol

Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data personol yw:

- Cael eich caniatâd chi
- Tasg a wneir er budd y cyhoedd - mae hyn er mwyn i ni allu gwneud ein gwaith fel adran o'r llywodraeth - gall hyn fod yn berthnasol ar adeg yn ystod y prosesu, pan nad cydsyniad yw'r sail gyfreithiol ar gyfer prosesu mwyach, er enghraifft, pan fydd eich data personol wedi cael ei ymgorffori yn ei ddadansoddiad ac nad oes modd ei adnabod mwyach

## Caniatâd i brosesu eich data personol

Pan fydd prosesu eich data personol yn seiliedig ar ganiatâd, gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl fel arfer, a bydd eich data personol yn cael ei ddileu. Gallwch wneud hyn gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a ddarperir gennym pan fyddwch yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Fodd bynnag, efallai na fyddwch yn gallu tynnu eich caniatâd yn ôl ar ôl i ni wneud eich data personol yn ddienw fel y gellir ei ymgorffori yn y dadansoddiad. Y rheswm am hyn yw nad yw data dienw yn ddata personol mwyach ac na ellir ei gysylltu'n ôl â chi.

## Gyda phwy ydyn ni'n rhannu eich data personol?

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i ymgynghoriad ar GOV.UK; ni fydd hyn yn cynnwys unrhyw ddata personol.

Bydd perchnogion Citizen Space,Delib Ltd hefyd yn gallu gweld eich data personol. Darllenwch Hysbysiad preifatrwydd Delib i gael gwybodaeth am sut maen nhw'n defnyddio eich data personol.

O bryd i'w gilydd, byddwn yn rhannu eich ymatebion â sefydliadau eraill sy'n cefnogi'r ymarfer ymgynghori. Bydd manylion hyn ar gael yn y dogfennau ymgynghori.

Rydym yn parchu eich preifatrwydd personol wrth ymateb i geisiadau mynediad at wybodaeth. Dim ond pan fo angen bodloni gofynion statudol Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 y byddwn yn rhannu gwybodaeth.

## Am faint rydyn ni'n yn cadw eich data personol?

Byddwn yn cadw eich data personol am hyd at 2 flynedd ar ôl diwedd yr ymgynghoriad neu'r ymarfer galwad am dystiolaeth.

**Beth fydd yn digwydd os na fyddwch yn darparu'r data personol?**

Ni fyddwn yn gallu casglu eich barn, eich safbwyntiau na'ch profiadau. Ni fyddwch yn gallu cyfrannu at nodau penodol yr ymgynghoriad na'r ymarfer galwad am dystiolaeth.

**Defnyddio dulliau proffilio neu ddulliau gwneud penderfyniadau awtomataidd**

Nid yw'r data personol a roddwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y canlynol:

- gwneud penderfyniadau awtomataidd (gwneud penderfyniad drwy ddulliau awtomataidd heb unrhyw fewnbwn dynol)
- proffilio (prosesu data personol yn awtomatig i werthuso pethau penodol am unigolyn)

**Trosglwyddo eich data personol y tu allan i'r DU**

Dim ond i wlad arall yr ystyrir ei bod yn ddigonol at ddibenion diogelu data y byddwn yn trosglwyddo eich data personol.

**Eich hawliau**

Ar sail y prosesu cyfreithlon uchod, dyma eich hawliau unigol:

| | |
|---|---|
| **Cydsyniad** | • Yr hawl i gael gwybod<br>• Yr hawl i fynediad<br>• Yr hawl i gywiro<br>• Yr hawl i ddileu<br>• Yr hawl i gyfyngu ar brosesu<br>• Yr hawl i gludadwyedd data<br>• Hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau awtomataidd a phroffilio |
| **Tasg gyhoeddus** | • Yr hawl i gael gwybod<br>• Yr hawl i fynediad<br>• Yr hawl i gywiro<br>• Yr hawl i gyfyngu ar brosesu<br>• Yr hawl i wrthwynebu<br>• Hawliau yn ymwneud â phenderfyniadau awtomataidd a phroffilio |

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau unigol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA 2018), ar gael yma.

**Cwynion**

Mae gennych hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth unrhyw bryd.

**Siarter gwybodaeth bersonol**

Mae ein siarter gwybodaeth bersonol yn egluro mwy am eich hawliau dros eich data personol.